

**NI YW  
#METCAERDYDD**

**BSC (ANRH) ASTUDIAETHAU  
CHWARAEON AC ADDYSG  
GORFFOROL DWYIEITHOG**

**YSGOL CHWARAEON A  
GWYDDORAU IECHYD CAERDYDD**

**Gwybodaeth am Sefydlu a  
Chofrestru**

**Blwyddyn Academaidd 2019/2020**



**Cardiff  
Metropolitan  
University**

**Prifysgol  
Metropolitan  
Caerdydd**

## **CYNNWYS**

- 1. Croeso gan eich Tîm Addysgu**
- 2. Tasg Dros yr Haf Cyn Mynediad**
- 3. Cofrestru / Casglu MetCard Myfyrwyr**
- 4. Amserlen yr Wythnos Sefydlu**
- 5. Amserlen Ddrafft / Presenoldeb Nodweddiadol**
- 6. Dolenni Defnyddiol**

## 1. Croeso gan eich Tîm Addysgu

Rydym wrth ein bodd eich bod yn ymuno â ni ym mis Medi fel rhan o'r rhaglen BSc (Anrh) Astudiaethau Chwaraeon ac Addysg Gorfforol Dwyieithog, ac rwy'n gobeithio eich bod yr un mor gyffrous â ni i ddechrau arni ym mis Medi! Ar ran tîm eich rhaglen, hoffwn estyn croeso i chi i ddechrau eich astudiaethau israddedig yma yn Ysgol Chwaraeon a Gwyddorau Iechyd Caerdydd ym Mhrifysgol Metropolitan Caerdydd. Mae rhaglenni chwaraeon yr Ysgol yn un o'r cyfresi mwyaf o ran maint a mwyaf cynhwysfawr o gyrsiau israddedig sy'n gysylltiedig â chwaraeon yn y DU, ac o ganlyniad, maent yn cynnig profiadau a chyfleoedd cyfoethog ac amrywiol i bob myfyriwr lywio ei yrfa yn y dyfodol.

Mae'r rhaglen hon yn canolbwyntio ar roi cyfle i chi ddatblygu eich dealltwriaeth academiaidd ac ymarferol o chwaraeon ac addysg gorfforol yn ddwyieithog. Er bod canran fach iawn o'r cwrs yn cael ei darparu drwy gyfrwng y Saesneg (11%), caiff y mwyafrif ohono ei ddarparu drwy gyfrwng y Gymraeg, gan roi cyfle i fyfyrwyr Cymraeg ateb y galw cynyddol am raddedigion dwyieithog medrus.

Mae'r cwrs yn cynnig cyfle i archwilio chwaraeon o wahanol safbwyntiau disgyblaethol. Cewch gyfle i feithrin eich gwybodaeth am hyfforddiant chwaraeon (damcaniaethol ac ymarferol), addysg gorfforol, iechyd a lles, arwyddocâd moesegol chwaraeon a gweithgarwch corfforol a'r materion sy'n gysylltiedig â darparu addysg gorfforol a chwaraeon ieuencid o safbwynt addysgeg, yn ogystal â'ch dealltwriaeth ohonynt.

Caiff y rhaglen ei chyflwyno a'i rheoli gan academyddion profiadol sydd â chyfoeth o brofiad ym maes ymchwil ac addysg gymhwysol, gan gynnwys cymwysterau sydd wedi'u cydnabod yn broffesiynol; ac mae pob un ohonynt yn cyfoethogi ac yn gwella eich profiad gyda ni fel myfyriwr. Fel tîm addysgu y rydym yn gobeithio'n fawr y byddwch yn mwynhau eich amser gyda ni, gan fanteisio ar y cyfle i wneud ffrindiau oes ar y rhaglen ac achub ar y cyfleoedd sydd ar gael i chi ddatblygu'n academiaidd, yn bersonol ac yn broffesiynol.

Mae Campws Cyncoed, lle caiff y rhaglenni chwaraeon israddedig eu cyflwyno, yn gampws bywiog a chyfeillgar, gydag amrywiaeth eang o weithgareddau chwaraeon a lles yn cael eu cynnal bob dydd. Gall y gweithgareddau hyn amrywio o hyfforddi athletwyr cenedlaethol eîit i blant lleol yn cymryd rhan mewn nifer o'n sesiynau chwaraeon a gweithgareddau cymunedol. Fel un o fyfyrwyr Met Caerdydd, bydd hefyd amrywiaeth eang o weithgareddau chwaraeon, iechyd a lles i chi gymryd rhan ynddynt, drwy [Chwaraeon Met Caerdydd](#) ac [Undeb Myfyrwyr](#). Cymerwch amser i ffwrdd o'ch astudiaethau i gymryd rhan mewn rhai o'r gweithgareddau hyn oherwydd y gallant helpu i ddatblygu eich sgiliau proffesiynol a'ch cyflogadwyedd ymhellach.

Yn olaf, croeso i Gaerdydd, ein prifddinas gyffrous sy'n llawn diwylliant a chwaraeon. Gallech dreulio eich penwythnosau yma'n gwyllo pêl-droed yn stadiwm Dinas Caerdydd, criced rhyngwladol yn Stadiwm SSE Swalec, hoci iâ gyda Devils Caerdydd yn y Bae ac, wrth gwrs, rygbi rhyngwladol yn Stadiwm Principality! Os bydd angen newid golygfa arnoch, ni fyddwch byth ymhell o gefn gwlad na glan môr hyfryd!

Rydym wrth ein bodd eich bod wedi ein dewis ar gyfer cam nesaf eich gyrfa, ac rydym yn gobeithio y bydd eich profiad ar y rhaglen Astudiaethau Chwaraeon ac Addysg Gorfforol Dwyieithog yn cwrdd â'ch disgwyliadau.

Fe welwn ni chi ym mis Medi!

**Dr Neil Hennessy**  
**Cyfarwyddwr Rhaglen**  
**BSc (Anrh) Astudiaethau Chwaraeon ac Addysg Gorfforol Dwyieithog**

## 2. Tasg Dros yr Haf Cyn Mynediad

Nid oes angen cwblhau unrhyw dasgau dros yr haf cyn mynediad ar gyfer y rhaglen Astudiaethau Chwaraeon ac Addysg Gorfforol Dwyieithog, ond os hoffech wneud ychydig o ddarllen ymlaen llaw, yna ceir rhestr o ddeunydd darllen a argymhellir o fodiwlau allweddol y rhaglen isod. Mae copïau o'r llyfrau hyn i gyd ar gael yn [Llyfrgell Met Caerdydd](#), a bydd unrhyw ddolenni i e-lyfrau ar gael unwaith y byddwch wedi cofrestru.

Cassidy, T., Jones, R. a Potrac, P. (2015). Deall Hyfforddi Chwaraeon: Sylfeini Cymdeithasol, Diwylliannol a Phedagogiaidd Ymarfer Hyfforddi (3ydd Arg.). Llundain, y DU: Routledge. [e-lyfr]

Jones, C. a Hennessy, N. (2017). Y Sgrym: Cyfiawnder a Chyfrifoldeb. Gwerddon, 25, 70-84.

Jones, R.L., Kingston, K a Hughes, M. (2013). Cyflwyniad i Hyfforddi Chwaraeon: Y Theori sy'n sail i'r Ymarfer. Caerdydd, y DU: Gwasg UWIC.

Upton, D. a Thirlaway, K. (2013). Promoting Healthy Behaviour: A Practical Guide for Nursing and Healthcare Professionals. Caeredin, y DU: Pearson Education. [\[e-lyfr\]](#)

Williams, G. a Morris, D. (2000). Language Planning and Language Use: Welsh in a Global Age. Gwasg Prifysgol Cymru.

### **Aelodaeth a Gwefannau Cyrff Proffesiynol**

Isod ceir rhestr o wefannau cyrff proffesiynol y gallech fod am edrych arnynt i gael rhagor o wybodaeth am y diwydiant Astudiaethau Chwaraeon ac Addysg Gorfforol Dwyieithog a'r achrediadau a'r cyfleoedd gyrfa sydd ar gael yn y maes.

Sefydliad Siartredig Rheoli Chwaraeon a Gweithgarwch Corfforol  
[www.cimspa.co.uk](http://www.cimspa.co.uk)

Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol

<http://www.colegcymraeg.ac.uk/cy/>

<https://www.porth.ac.uk/cy/>

<http://www.colegcymraeg.ac.uk/cy/ymchwil/gwerddon/>

### **Archebu Cit Chwaraeon**

Unwaith y byddwch wedi cofrestru ar-lein, caiff gwybodaeth ei hanfon atoch ynglŷn ag archebu pecyn cit Ysgol Chwaraeon a Gwyddorau Iechyd Caerdydd. Sicrhewch eich bod yn cofrestru ac yn archebu'r cit hwn cyn gynted â phosibl er mwyn sicrhau y bydd yn barod pan fyddwch yn cyrraedd ym mis Medi.

### 3. Cofrestru / Casglu MetCard Myfyrwyr

Mae cofrestru yn broses bwysig sy'n cadarnhau eich statws fel myfyriwr. Gallwch gwblhau'r broses hunangofrestru ar-lein o unrhyw gyfrifiadur drwy ein system Hunanwasanaeth. Er mwyn hunangofrestru, mae'n ofynnol bod gennych gynnig Diamod Cadarn.

Cewch neges e-bost yn eich hysbysu pan fyddwch yn gymwys i gofrestru ar-lein. Bydd y neges e-bost yn eich cyfeirio at gyfleuster ailodod cyfrinair er mwyn i chi ofyn am gyfrinair i'ch galluogi i fewngofnodi a chwblhau'r broses gofrestru. Er mwyn cael gwybodaeth ac arweiniad ar y broses hon gwnewch yn siwr eich bod yn mynd i'n tudalen gofrestru – [www.cardiffmet.ac.uk/enrolment](http://www.cardiffmet.ac.uk/enrolment).

Mae'r broses hon yn hanfodol gan y bydd yn caniatáu i chi gael gafael ar eich benthyciad myfyriwr (os gwnaethoch gais am un), talu ffioedd, cael mynediad i systemau TG Met Caerdydd ac, yn bwysig, yn eich galluogi i gael eich MetCard Myfyrwyr. Byddwch hefyd yn cael Llawlyfr y Rhaglen yn ystod yr Wythnos Sefydlu. Mae Llawlyfr y Rhaglen yn llawlyfr hanfodol drwy gydol y Rhaglen a dylech ei gadw i'w ddefnyddio drwy gydol eich astudiaethau. Bob blwyddyn academiaidd, caiff gwybodaeth ychwanegol yn ymwneud â'r lefel honno ei darparu. Mae'r Llawlyfr yn cynnig arweiniad ar Reolau, Rheoliadau a Gweithdrefnau ac arweiniad ar ddsygu ar gyfer practis gyda gwybodaeth am bob modiwl y bydd angen eu cyflawni a rhestrau darllen.

#### **Cofrestru ar gyfer Myfyrwyr Rhyngwladol o'r tu allan i'r UE**

Os ydych yn fyfyrwr rhyngwladol (o'r tu allan i'r UE), **ni fydd** angen i chi gofrestru ar-lein cyn cyrraedd Prifysgol Met Caerdydd. Y rheswm dros hyn yw ei bod yn ofyniad cyfreithiol i'r Brifysgol wirio dogfennau mewnfudo myfyrwyr rhyngwladol cyn y caniateir iddynt gofrestru ar eu cyrsiau. I gael rhagor o wybodaeth am gofrestru fel myfyriwr rhyngwladol a rhestr o ddogfennau y bydd angen i chi ddod â nhw gyda chi, ewch i'r [tudalennau myfyrwyr rhyngwladol](#) neu cysylltwch â'r Tîm Cydymffurfiaeth Mewnfudo drwy e-bostio [immigrationregs@cardiffmet.ac.uk](mailto:immigrationregs@cardiffmet.ac.uk) neu drwy ffonio 029 2041 5644.

#### **Gwasanaethau Llyfrgell a Gwybodaeth**

Byddwch yn gallu defnyddio Gwasanaethau Llyfrgell a Gwybodaeth Met Caerdydd yn fuan ar ôl i chi gwblhau'r broses gofrestru ar-lein. Cewch neges e-bost yn cadarnhau hyn a fydd yn cynnwys eich manylion mewngofnodi i Met Caerdydd. Er mwyn gweld y cyfleusterau a'r gwasanaethau sydd ar gael, ewch i [www.cardiffmet.ac.uk/library](http://www.cardiffmet.ac.uk/library).

#### **Eich MetCard Myfyrwyr**

Nodir amser penodol ar gyfer casglu eich MetCard yn y wybodaeth am yr **Wythnos Sefydlu**. Mae eich MetCard yn rhoi mynediad i chi i holl brif adeiladau a drysau'r campws. Gallwch hefyd ychwanegu arian at eich MetCard er mwyn talu am ddefnyddio'r argraffwyr hunanwasanaeth, copiwyd a gwasanaethau'r Stiwdio Argraffu. I gael rhagor o wybodaeth am fanteision MetCard, [cliciwch yma](#).

#### **Ffioedd**

Ffioedd eich rhaglen ar gyfer mis Medi 2019 yw £9,000. Os oes unrhyw gostau ychwanegol yn gysylltiedig â'ch rhaglen, byddant wedi'u rhestru ar [www.cardiffmet.ac.uk/additionalcosts](http://www.cardiffmet.ac.uk/additionalcosts). Dylech eisoes fod yn ymwybodol o'r costau hyn.

#### **4. Amserlen yr Wythnos Sefydlu**

Bydd eich semester cyntaf fel myfyriwr newydd yn dechrau gyda'r Wythnos Sefydlu, lle byddwch yn ymgyfarwyddo â'ch llety, y cwrs a bywyd myfyriwr. Mae eich amserlen ar gyfer yr Wythnos Sefydlu yn cynnwys digwyddiadau sydd wedi'u cynllunio i'ch helpu i ymgyfarwyddo â Met Caerdydd, y cyfleusterau a'ch cyd-fyfyrwyr. Cewch y cyfle i fynd i amrywiaeth o ddigwyddiadau yn ymwneud â'ch cwrs, Gwasanaethau Llyfrgell, TG, Gwasanaethau Myfyrwyr ac Undeb Myfyrwyr. Byddwch hefyd yn cwrdd â'ch tiwtor personol, ac yn cael sawl sesiwn gydag ef neu hi, er mwyn gwneud y broses bontio academiaidd mor esmwyth â phosibl.

Byddwn yn cynnal Ffair y Glas lle gallwch gofrestru â nifer o gymdeithasau a chlybiau gwahanol, a digwyddiad cymdeithasol MetFest brynhawn dydd Gwener.

**Peidiwch ag anghofio cymryd rhan ar Twitter gyda 'Ni yw #metcaerdydd'.**

Os ydych yn newydd i Gaerdydd, bydd digon o gyfleoedd hefyd i chi grwydro'r ddinas, gwneud ffrindiau newydd ac ymgyfarwyddo â'ch bywyd newydd.

Mae'r Wythnos Sefydlu yn achlysur mawr ar y campws ac mae pawb yn cymryd rhan. Peidiwch â bod ofn stopio a gofyn – mae'r holl staff a myfyrwyr yn hapus i groesawu unrhyw un newydd ar y campws. Mae eich amserlen digwyddiadau yn cael ei chwblhau ar hyn o bryd, a chaiff ei lanlwytho fel dogfen ar wahân ar ein tudalennau [Myfyrwyr Newydd](#).

## 5. Amserlen Ddrafft / Presenoldeb Nodweddiadol

Mae rhaglenni chwaraeon Ysgol Chwaraeon a Gwyddorau Iechyd Caerdydd yn cyflwyno modiwlau mewn patrwm tymhorol. Fel myfyriwr blwyddyn gyntaf, bydd hyn yn golygu eich bod yn ymgymryd â thri modiwl yn ystod Tymor 1 (Medi-Ionawr) a thri arall yn ystod Tymor 2 (Ionawr-Mai). Sicrhewch eich bod yn edrych ar [Ddyddiadau Tymhorau Met Caerdydd](#) a'r [Calendr Academaidd ar gyfer 2019/20](#) i gael rhagor o fanylion.

Mae'r rhaglenni chwaraeon hefyd yn dilyn patrwm cyflwyno "modiwl ar ddiwrnod". Mae hyn yn golygu y bydd yr holl amser cyswllt a drefnwyd ar gyfer modiwl yn digwydd ar ddiwrnod penodol o'r wythnos. Gall modiwlau gynnwys amrywiaeth o ddarlithoedd, sesiynau ymarferol, seminarau a thasgau dysgu annibynnol a drefnir ar gyfer y diwrnod dynodedig. Cewch fynediad i amserlen bersonol drwy [Ap My Cardiff Met](#) yn agosach at eich dyddiad dechrau ym mis Medi, a fydd yn cynnwys manylion am eich amserlen darlithoedd benodol ar gyfer pob modiwl.

Rhestrir y dyddiau dynodedig ar gyfer modiwlau Astudiaethau Chwaraeon ac Addysg Gorfforol Dwyieithog y flwyddyn gyntaf isod:

	Dydd Llun	Dydd Mawrth	Dydd Mercher	Dydd Iau	Dydd Gwener
<b>Tymor 1</b>	SSP4115 Addysg Gorfforol, Hyfforddi Chwaraeon ac Addysgeg	SSP4100W Ymchwil ac Ysgolheictod			SSP4101 Addysgeg Chwaraeon Gymhwysol
<b>Tymor 2</b>	SSP4113W Gweithgarwch Corfforol, Iechyd a Lles			SSP4114W Materion Mewn Chwaraeon, Cymdeithas ac Addysg	SSP4112W Dwyieithrwydd

Nodwch y gall yr amserlen ddrafft hon newid.



## 6. Dolenni Defnyddiol

### [Amserlen](#)

Bydd y ddolen hon yn rhoi mynediad i'ch amserlen derfynol. Bydd angen cofrestru cyn y gallwch gael mynediad i'r ddolen hon, a byddwn yn cysylltu â chi pan fydd y wybodaeth ar gael.

### [Costau Cwrs Ychwanegol](#)

Ystyr costau ychwanegol yw'r treuliau gorfodol neu ddewisol, yn ychwanegol at ffioedd dysgu, y mae angen i fyfyrwyr eu talu er mwyn cymryd rhan lawn yn eu hastudiaethau a'u cwblhau. Mae hyn yn cynnwys pethau fel cyfarpar, teithiau, lleoliadau a gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Mae gan bob rhaglen gostau ychwanegol gwahanol.

### [Llety](#)

Gall myfyrwyr symud i mewn i'r Neuaddau o ddydd Gwener 14 Medi ond dim ond y rheini sydd wedi cwblhau'r broses gofrestru yn llwyddiannus fydd yn cael mynediad i'r rhyngwyd. Cynhelir digwyddiadau yn ystod yr Wythnos Sefydlu a bydd yr Adran Llety yn anfon gwybodaeth atoch pan fyddant wedi'u cadarnhau.

### [Gwasanaethau Myfyrwyr](#)

Am gymorth yn ystod eich cyfnod gyda ni o ran iechyd, lles, ffordd o fyw a'ch gyrfa yn y dyfodol. Y nod yw rhoi'r holl gymorth sydd ei angen arnoch er mwyn sicrhau bod eich astudiaethau mor bleserus a llwyddiannus â phosibl. Mae'r gwasanaethau hefyd yn cynnwys cwnsela, anableded a chaplaniaeth.

### [Cyllid Myfyrwyr](#)

I gael gwybodaeth am Fenthyciadau Ffioedd Dysgu a benthyciadau Cynhaliath, grantiau nad oes rhaid eu had-dalu, bwrsariaethau ac ysgoloriaethau a allai fod ar gael.

### [Chwaraeon a Chyfleusterau Met Caerdydd](#)

[Undeb Myfyrwyr Met Caerdydd](#) gan gynnwys gwybodaeth i Lasfyfyrwyr a bandiau garddwrn.

### [Dyddiadau'r Tymhorau](#)

#### [Mapiau o'r Campysau, Cysgodfannau Beiciau a Met Rider](#)

Mae Met Caerdydd yn cynnig ei gwasanaeth bws ei hun o'r enw Met Rider. Anfonir ffurflen gais atoch gyda'ch Gwybodaeth am Sefydlu a Chofrestru. Mae gennym hefyd gysgodfannau Storio Beiciau ar bob campws, gydag ystafelloedd newid a chawodydd. Mae'r cysgodfannau yn ddiogel a rhaid i chi ddangos eich MetCard i'w defnyddio, ond mae'n rhaid i chi ofyn am ganiatâd drwy'r i-zone yn gyntaf.

### [Cynllun Tacsï Diogel](#)

Mae Met Caerdydd yn gweithredu cynllun Tacsï Diogel gyda Dragon Taxis sy'n sicrhau bod gennych ffordd o gyrraedd adref bob amser.

### [Teithiau Rhithwir](#)

Cymerwch olwg arall o gwmpas ein campws a'n cyfleusterau gyda'n teithiau tywys rhithwir.

[Llawlyfr Myfyrwyr](#)

[Llawlyfr Academaidd](#)

[Polisi Derbyn](#)

# 2019 CROESO

## amserlen wythnos anwythiad

**TEITL Y CWRS: AChAG a GClALI**  
**CAMPWS: Cyncoed**

MONDAY 16 <sup>th</sup> SEPTEMBER Dydd Llun 16 Medi	TUESDAY 17 <sup>th</sup> SEPTEMBER Dydd Mawrth 17 Medi	WEDNESDAY 18 <sup>th</sup> SEPTEMBER Dydd Mercher 18 Medi	THURSDAY 19 <sup>th</sup> SEPTEMBER Dydd Iau 19 Medi	FRIDAY 20 <sup>th</sup> SEPTEMBER Dydd Gwener 20 Medi
<p><b>10.00 – 11.00</b> Diwrnod Cyntaf - cyfarfod tiwtor blwyddyn (Lleoliad: C101) (Dod i adnabod - cyfarfod y Tiwtor Blwyddyn: Dyrannu Grwpiau Tiwtor Personol: Adolygu amserlen yr Wythnos Gynefino: her cyfeiriadedd)</p> <p><b>15.00 – 16.00</b> Cyfarfod Tiwtor Personol (Lleoliad: C108) (Dod i adnabod y tiwtor a chyd-fyfyrrwyr: deall disgwyliadau AU: dechrau'r dasg gynefino)</p> <p><b>15.00 – 16.00</b> Casglu cardiau adnabod o'r ystafell TG sydd i fyny'r grisiau yn y Llyfrgell.</p> <p><b>16.00 – 17.00</b> Amser astudio dan arweiniad (Gweithio ar unrhyw dasgau a osodwyd yn ystod cyfarfodydd tiwtor personol)</p> <p>* Gellir casglu dillad chwaraeon drwy gydol y dydd (9.00am – 4.00pm) pan fyddwch yn rhydd i wneud hynny (Lleoliad: Arena Archers)</p>	<p><b>9.00 – 10.00</b> Cyfarfod Tiwtor Personol 2 (Lleoliad: V007) (Cyflwyniad i systemau TG allweddol y Brifysgol - Office 365, Moodle, Amserlen Bersonol a Phorth Tiwtor Personol)</p> <p><b>10.00 – 11.00</b> Sgyrsiau rhagarweiniol 1 (Lleoliad: LT2) (Sgwrs ragarweiniol gan Undeb y Myfyrrwyr (SU) a thimau cyflogadwyedd, gyrfaoedd ac entrepreneuriaeth)</p> <p><b>11.00 – 12.00</b> Amser astudio dan arweiniad (Gweithio ar unrhyw dasgau a osodwyd yn ystod cyfarfodydd tiwtor personol)</p> <p><b>13.00 – 14.00</b> Sgyrsiau rhagarweiniol 2 (Lleoliad: LT4) (Cael y wybodaeth am gwrs preswyl Aberhonddu, SSP4001 APT dewis chwaraeon, gwasanaethau anabled a chynhwysedd a rhaglen bywyd preswyl)</p>	<p><b>10:00 – 16:00</b></p> <p><b>Ffair y Glas</b></p> <p>Campws Cyncoed Canolfan Athletau Dan Do Genedlaethol (NIAC)</p> <p><i>Gellir casglu eich MetCard Myfyriwr yn ystod y dydd gan y Tîm Ymrestru sydd wedi'i leoli yn y ffair.</i></p> <p><b>Gyda'r hwyr</b> Gweithgareddau'r Undeb Myfyrrwyr</p>	<p><b>11.00 – 16.00</b></p> <p>Diwrnod Gweithgareddau'r Rhaglen (Lleoliad: Rygbi 3G1/2 a V005)</p> <p>(Dewch i gymryd rhan! Cael eich ysbrydoli! Diwrnod gweithgareddau'r rhaglen i roi blas i chi o'r hyn sydd i ddod yn ystod y flwyddyn academiaidd)</p>	<p><b>9.00– 10.00</b> Cwrdd â Chyfarwyddwr y Rhaglen a Llun (Lleoliad: C101) (Trosolwg o'r rhaglen a'r canlyniadau, a llun grŵp)</p> <p><b>10.00 – 11.00</b> Amser astudio dan arweiniad (Gweithio ar unrhyw dasgau a osodwyd yn ystod cyfarfodydd tiwtor personol)</p> <p><b>11.00 – 12.00</b> Cyfarfod Tiwtor Personol 3 (Lleoliad: C101) (Cwblhau'r dasg gynefino, pontio i fywyd academiaidd)</p> <p><b>12.00 – 13.00</b> Amser astudio dan arweiniad (Gweithio ar unrhyw dasgau a osodwyd yn ystod cyfarfodydd tiwtor personol)</p>
				<p><b>14.00 - 19.00</b></p> <p><b>Gŵyl Met</b></p> <p>Campws Llandaf</p>

Digwyddiadau penodol i'r cwrs

Digwyddiadau Cymdeithasol

### Lythyr Croeso gan eich Cyfarwyddwr Rhaglen.

Fel Cyfarwyddwr Rhaglen y BSc (Anrh) Astudiaethau Chwaraeon ac Addysg Gorfforol Dwyieithog (AChAG), hoffwn eich croesawu i Brifysgol Metropolitan Caerdydd ac i Ysgol Chwaraeon a Gwyddorau Iechyd. Nod y llythyr hwn yw rhoi peth gwybodaeth am y cwrs a ddechreuir ym mis Medi.

Bydd Yr Wythnos Sefydlu yn dechrau ar 16 Medi. Rydym wedi paratoi cyfres o weithgareddau i'ch helpu dod yn gyfarwydd â'r Brifysgol, â'r rhaglen, ag eraill ar y cwrs, â'r staff addysgu. Mae'n hanfodol y mynychwch Yr Wythnos Sefydlu oherwydd y derbyniwch wybodaeth bwysig am astudio ym Met Caerdydd.

Cefnogir pob myfyriwr newydd gan Diwtor Personol. Mae darparu cefnogaeth o safon uchel yn bwysig i ni; cwrddwch â'ch Tiwtor Personol yn ystod Yr Wythnos Sefydlu. Bydd staff Gwasanaethau Myfyrwyr ar gael i gynnig cyngor ar ambell i fater, gan gynnwys, cyllid, asesiadau anabledd/dysgu a chymorth o ran iechyd meddwl a lles.

Mae llawer o gyfleon cyffrous ar gael tra bod yn y Brifysgol, gan gynnwys, lleoliadau gwaith, astudio dramor (Y Wladfa, Patagonia), cymdeithasau, a chyfleon i ymgymryd â chymwysterau hyfforddi UKCC. Mae gennym ambell i dîm chwaraeon hefyd sydd yn eich disgwyl. Cewch fwy o wybodaeth am y cyfleon hyn yn Ffair y Glas ar 18 Medi yn y NIAC.

Cwblhewch gynnwys, eich ymrestru ar-lein, CYN i chi ddod i'r Brifysgol ar 16 Medi fel y gallwch gasglu'ch cerdyn adnabod yn ystod Yr Wythnos Sefydlu. Mae'r cerdyn adnabod yn rhoi mynediad i Neuaddau Preswyl ac i gyfleusterau eraill ar gampws; mae hefyd yn caniatáu i chi wneud defnydd o'r cyfleusterau yn y llyfrgell.

Edrychaf ymlaen at gwrdd â chi ar 16 Medi am 10yb yn C1.01, Campws Cyncoed. Am fwy o wybodaeth o ran amserlen Yr Wythnos Sefydlu, ewch i'r dudalen we newydd i fyfyrwyr – [www.cardiffmet.ac.uk/newstudents](http://www.cardiffmet.ac.uk/newstudents).



Dr Neil Hennessy  
BA (Anrh) MPhil MSc PGCE PgCTHE SFHEA  
Cyfarwyddwr Rhaglen, BSc (Anrh) Astudiaethau Chwaraeon ac Addysg Gorfforol Dwyieithog



@DrNeilJHennessy / @MetCaerdyddDCC